# Newidiadau a allai ddigwydd yn Ysgol Llangynnwr

**Dogfen Ymgynghori ar gyfer Plant a Phobol Ifanc**





sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Helo!

Rydyn ni eisiau dweud wrthych chi am syniad sydd gan y Cyngor ar gyfer **Ysgol Llangynnwr.**

Rydyn ni hefyd eisiau gwybod beth ydych chi'n ei feddwl, oherwydd mae eich barn yn bwysig iawn.

Bydd eich barn yn helpu'r Cyngor i wneud y penderfyniad terfynol.

## Beth sy'n digwydd?

- Mae'r Cyngor yn helpu ysgolion i wneud yn siŵr bod plant yn hapus, yn ddiogel ac yn dysgu'n dda
- Weithiau, mae'r Cyngor yn edrych ar ysgolion i weld sut gall pethau fod yn well fyth
- Mae'r Cyngor yn meddwl am newid sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn Ysgol Llangynnwr
- Rydym am wybod beth ydych chi'n meddwl am y syniad.

## Pam rydyn ni'n meddwl am hyn?

- Gall dysgu Cymraeg pan fyddwch chi'n ifanc eich helpu i fod yn fwy hyderus
- Mae'r Gymraeg yn iaith bwysig yn Sir Gaerfyrddin ac yng Nghymru
- Mae'r Cyngor eisiau helpu plant i:
    - fod yn ddwyieithog a gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn hyderus
    - fwynhau siarad Cymraeg yn yr ysgol a gyda ffrindiau

## Beth sy'n digwydd yn Ysgol Llangynnwr ar hyn o bryd?

- Yn Ysgol Llangynnwr, mae plant yn y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn dysgu yn bennaf drwy'r Gymraeg
- Ym Mlynyddoedd 3 i 6, mae rhai plant yn parhau i ddysgu'n bennaf drwy'r Gymraeg, ac mae rhai mewn dosbarth Dwyieithog, lle maent yn dysgu yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Mae athrawon yn helpu plant i ddysgu a defnyddio'r ddwy iaith bob dydd

## Beth fydd yn newid?

- Os ydych chi yn mynd i Ysgol Llangynnwr ac ym Mlwyddyn 3, 4, 5 neu 6, **ni fydd unrhyw newid** yn yr iaith y'ch dysgir chi ynddi
- Os ydych chi yn y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 neu Flwyddyn 2, byddwch yn parhau i gael eich dysgu yn bennaf drwy'r Gymraeg wrth i chi symud drwy'r ysgol. Ym Mlwyddyn 3, byddwch hefyd yn dysgu Saesneg fel pwnc, gan eich helpu i ddod yn ddwyieithog – yn gallu defnyddio Cymraeg a Saesneg yn hyderus

## Pam mae'r Cyngor yn meddwl am hyn?

- Gall dysgu Cymraeg pan fyddwch chi'n ifanc eich helpu i fod yn fwy hyderus, deall mwy a defnyddio'r iaith yn fwy
- Mae'r Gymraeg yn iaith bwysig yn Sir Gaerfyrddin ac yng Nghymru
- Mae'r Cyngor eisiau helpu plant i fod yn ddwyieithog a defnyddio Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol, gyda ffrindiau ac yn y gymuned
- Mae'r Cyngor hefyd eisiau i blant gael mwy o ddewisiadau pan fyddan nhw'n hŷn ac i gadw'r Gymraeg yn gryf ar gyfer y dyfodol

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Ar hyn o bryd, dim ond syniad yw hwn. Nid oes dim yn newid eto
- Bydd y Cyngor yn gwrando ar beth mae plant, rhieni ac athrawon yn ei ddweud
- Bydd y Cyngor yn ysgrifennu'r syniadau i gyd mewn adroddiad
- Bydd Cynghorwyr Sir Gaerfyrddin yn darllen yr adroddiad
- Bydd y Cynghorwyr yn penderfynu beth fydd yn digwydd nesaf

## Ydych chi eisiau gwybod mwy?

- Mae dogfen hirach ar gyfer rhieni a gofalwyr
- Gallwch ofyn i Mam, Dad, gofalwr neu athro/athrawes i helpu esbonio'r syniad
- Gallwch ofyn cwestiynau os nad ydych yn siwr am rywbeth

**Sut i ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl?**

**Mae gennych yr hawl i ddweud eich barn, ac rydym eisiau ei chlywed.**

**Gallwch rannu eich syniadau mewn sawl ffordd. Gallwch ysgrifennu yn Gymraeg neu Saesneg:**

- Siaradwch gyda'ch athro neu oedolyn arall
- Ysgrifennwch eich syniadau neu tynnwch lun
- Llenwch yr holiadur ar-lein (gofynnwch i oedolyn helpu)
- E-bostiwch: cscallangynnwr@sirgar.gov.uk
- Ysgrifennwch lythyr at: Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

**Erbyn pryd mae angen i chi roi gwybod i ni?** Rhowch wybod i ni rhwng Medi'r 7fed 2026 a Hydref 20fed 2026

Mae'r wybodaeth ar gael hefyd mewn fformatau eraill gan gynnwys fersiynau gweledol, fersiynau gyda symbolau, Saesneg neu Braille.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council